


## OWEN, RICHARD JONES ('Glaslyn'; 1831-1909), bardd a llenor



**Enw:** Richard Jones Owen  
**Ffugenw:** Glaslyn  
**Dyddiad geni:** 1831  
**Dyddiad marw:** 1909  
**Priod:** Elin Owen (née Jones)  
**Plentyn:** John Owen  
**Rhiant:** Elizabeth Owen  
**Rhiant:** John Owen  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd a llenor  
**Maes gweithgaredd:** Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth  
**Awduron:** Hywel David Emanuel, Idwal Lewis

Fe'i adnabyddir gan amlaf fel Richard Owen. Ganwyd 13 Ebrill 1831 yn Llofft y Tŷ Laeth, y Parc, ym mhlwyf Llanfrothen, Sir Feirionnydd. Enwau ei rieni oedd John ac Elizabeth Owen. Ychydig o addysg fore a gafodd. Ar ôl cyfnod fel gwas bach yn Ynysfor, aeth i weithio i chwarelau Ffestiniog yn 14 oed. Priododd Elin Jones o Feddgelert, a chartrefodd y ddau ym Meddgelert, lle y ganwyd iddynt ddau fab. Parhaodd cysylltiad 'Glaslyn' â'r chwarelau; yn 1869 yr oedd yn arolygydd ar chwarel fechan yn Nyffryn Ardudwy. Yn 1877 symudodd y ddau i bentref Bryntirion, Nantmor, a thrachefn wedi ychydig amser i fwthyn o'r enw Penygroes gerllaw Pont Aberglaslyn. Ar 17 Mai 1902 colodd 'Glaslyn' ei briod, ac aeth i 'Lys Ednyfed' ym Mhenryndeudraeth, lle y bu farw ar 13 Mawrth 1909 yn 78 mlwydd oed; claddwyd ef ym Meddgelert ar 19 Mawrth. Cynhyrchodd gryn lawer o farddoniaeth a rhyddiaith a chyfrannodd erthyglau lawer i *Cymru, Y Genedl Gymreig*, a chylchgronau eraill. Cyhoeddodd hefyd ei '*Adgofion*' o'i ffrind **Owen Wynne Jones** ('Glasyns'), a golygodd ddetholiad o'i farddoniaeth a'i ryddiaith yn *Yr Wyddfa*. Gwnaed cais aflwyddiannus i sicrhau iddo bensiwn gan y Llywodraeth ar sail ei waith llenyddol. Ceir enghraifft o'i waith yn **NLW MS 2856B**.

Mab iddo oedd JOHN OWEN, 'Ap Glaslyn' (1857 - 1934), cerddor, llenor, a gweinidog; ganwyd ym Meddgelert 6 Mai 1857. Addysgwyd ef yn ysgol y pentref, bu'n ddisgybl-athro, ac yna'n gweithio yn chwareli Ffestiniog a Llanberis. Bu blynyddoedd ei febyd yn llawn rhamant. Llwyddodd fel adroddwr ac actiwr a datganwr o fri. Wedi hynny bu'n areithiwr dylanwadol ar lwyfan dirwest ac yn ystod Diwygiad 1904-5 ac wedi hynny bu'n efenglydd effeithiol. Ordeiniwyd ef yn weinidog gyda'r Methodistiaid Calfinaidd yn 1919, a bu'n gofalu am achos Saesneg Gelli, Rhondda, ac yn ddiweddarach galwyd ef i fugeilio eglwys Gymraeg, Llanbradach, ac yno y bu hyd ei farwolaeth 16 Ebrill 1934. Ysgrifennodd i gylchgronau Cymraeg, ac yn 1876 cyhoeddodd gyfrol o'i weithiau *Y Llenor Ieuanc a Pryddest: Y Dymhestl*. Cyfansoddodd y geiriau a'r tonau i nifer o ganeuon poblogaidd, ac yn ystod y Diwygiad medrai siglo cynulladau wrth eu canu. Priododd Elizabeth Trefor, merch William a Jane Trefor, Llanberis, a bu iddynt chwech o blant.

### Awduron

Hywel David Emanuel, (1921 - 1970)

Idwal Lewis

### Ffynonellau

'Carneddog,' *Gwaith Glaslyn detholiad o'i farddoniaeth a'i ryddiaeth* (Caernarfon 1914), 1914

*Yr Wyddfa, sef Gwaith Barddonol a Rhyddieithol y diweddar Barch. O. Wynne Jones (Glasyns)* (gol. Glaslyn)

*Glasyns Adgofion gan Glaslyn gyda Detholiad o'i Weithiau*, 1894

Saunders Lewis, *Straeon Glasyns detholiad* (rhagymadrodd)

*Baner ac Amserau Cymru*, 24 Mawrth 1909

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: **Q28360913**

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Emanuel, H. D., & Lewis, I., (1953). OWEN, RICHARD JONES ('Glaslyn'; 1831-1909), bardd a llenor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 14 Awst 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-OWEN-JON-1831>

Y Bywgraffiadur

Preifatrwydd a Chwci  
Hawlfraint  
Y Prosiect  
Cymorth  
Cysylltu

LGC  
NLW

LLYFRGELL  
THE NATION



Yn ddiwydian  
Llywodraeth Cymru  
Powered by  
Welsh Government